OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1350

## Rheoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005

**Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990**

**6.** Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 2065/2003 fel y maent yn gymwys at ddibenion y Ddeddf —

(a) adran 3 (rhagdybiaeth y bwriedir bwyd i'w fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 14 neu 15 o'r Ddeddf honno);

(ch) adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yng nghwrs busnes);

(d) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(dd) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(e) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);

(f) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);

(ff) adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);

(g) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac

(ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).